

Adroddiad Blynyddol 2023-24

Ebrill 2024



Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol



Cynnwys

- 3** Rhagair y Prif Weithredwr
- 5** Cyflwyniad i'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol
- 7** Uchafbwyntiau'r Flwyddyn
- 9** Allbynnau allweddol y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol drwy gydol y flwyddyn
- 10** Cydlyniant rhwng cyfundrefnau
- 13** Cydweithredu ar faterion trawsbynciol
- 17** Meithrin gallu ar draws rheoleiddwyr
- 20** Ymgysylltu â'r Senedd Brydeinig, y llywodraeth, y diwydiant a grwpiau defnyddwyr

Rhagair y Prif Weithredwr

Mae 2023/24 wedi bod yn flwyddyn bwysig i reoleiddio digidol yn y DU. Mae deddfwriaeth diogelwch ar-lein newydd wedi cael ei rhoi ar waith, mae deddfwriaeth marchnadoedd digidol a rheolau diogelu data newydd yn mynd drwy'r Senedd Brydeinig, ac mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei dull gweithredu ar gyfer rheoleiddio deallusrwydd artiffisial (AI). Wrth i lyfr rheolau digidol y DU aeddfedu, mae'r Fforwm a'i gyrff rheoleiddio sy'n aelodau wedi bod yn edrych yn gyfannol ar yr amgylchedd hwn sy'n newid, gan gydweithredu ar ddull cydlynol.



Mae'r Fforwm wedi mynd y tu hwnt i'w nodau eleni.

Yn ogystal â chyflawni'r holl brosiectau a amlinellir yn ein Cynllun Gwaith ar gyfer y flwyddyn, rydym wedi cydweithio mwy o lawer ar lywodraethu deallusrwydd artiffisial, yn enwedig yng ngoleuni'r diddordeb cynyddol sydd yn y DU mewn mabwysiadu deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol.

Un o'r llwyddiannau allweddol oedd ein cytundeb â Llywodraeth y DU y byddai'n ariannu Hwb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol arloesol ('yr Hwb') y Fforwm. Dyma wasanaeth cyngori aml-asiantaeth i arloeswyr a fydd yn cael ei lansio yn ystod gwanwyn 2024. Mae'r Fforwm wedi arwain y gwaith o gydweithredu ar yr egwyddorion a nodir ym Mhapur Gwyn Deallusrwydd Artiffisial y Llywodraeth ac ar oblygiadau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol a modelau sylfaen, yn ogystal â mynd ar drywydd ein gwaith ar archwilio algorithmig. Cynhaliodd y Fforwm banel yn yr Uwchgynhadledd Ymylol ar Ddeallusrwydd Artiffisial, yn ogystal â chymryd rhan mewn paneli eraill ar reoleiddio deallusrwydd artiffisial trwy gydol y flwyddyn. Rydym wedi ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar ein gwaith ar ddeallusrwydd artiffisial i helpu i lunio ei ddull gweithredu.

Mae ein gwaith ar y cyd rhwng rheoleiddwyr, er enghraifft ar dechnoleg hysbysebu a thechnoleg diogelwch – pensaernïaeth dewis ar-lein a chwcis, sicrhau oedran a chymedroli cynnwys - yn cael effaith sylweddol ar gyfryngau cymdeithasol a marchnadoedd digidol y DU. Mae ein papurau, er enghraifft ar ddyfodol ymgolli, archwilio cwantwm ac algorithmig, yn helpu i lunio cyfeiriad y diwydiannau hynny. Rydym wedi gwrandao ar fusnesau wrth ddatblygu ein cynllun gwaith ac wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau yn y diwydiant i egluro rôl a darpariaeth y Fforwm.

Y llynedd, gwelwyd newid sylweddol yn atebolrwydd y Fforwm i'r Senedd Brydeinig. Roedd y Fforwm wedi darparu tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Dethol ar Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg yn Nhŷ'r Cyffredin, yn ogystal â chyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgorau Dethol, a chyfarfod â Grwpiau Seneddol Hollbleidiol a llefarwyr allweddol o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol i drafod dull a gwaith strategol y Fforwm. Y llynedd, fe wnaeth y Fforwm ehangu'n rhyngwladol hefyd, gan sefydlu Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (INDRC). Drwy'r rhwydwaith hwn, rydym yn trafod dulliau gweithredu ar gyfer cydweithredu traws-reoleiddio gydag awdurdodaethau ledled y byd ac yn dangos manteision y Fforwm.

Mae cydweithredu'n hanfodol ar gyfer rheoleiddio digidol yn llwyddiannus, gan fod arloesi digidol yn aml yn cwmpasu sawl sector o'r economi. Mae'n edrych fel y bydd 2024/25 yn flwyddyn sy'n hyd yn oed fwy cyffrous i'r Fforwm, gan weithio gyda mwy o bartneriaid a rhanddeiliaid wrth i lywodraethu digidol gwmpasu rhaniadau analog yn gynyddol. Mae'r rhain yn heriau cyffrous a thrwy weithio gyda'n gilydd, gallwn anelu at hwyluso twf ac osgoi niwed.

Yn ystod fy mlwyddyn gyntaf gyda'r Fforwm, rydw i wedi bod yn ffodus i weithio gyda thîm gwych sy'n dod â chydweithredu'n fyw bob dydd. Rwy'n ddiolchgar am y cymorth mae'r Fforwm yn ei gael ar bob lefel gan ei gyrff rheoleiddio sy'n aelodau, sy'n hanfodol i'w lwyddiant. Rydym i gyd yn edrych ymlaen at barhau i ddyfnhau ein cydweithrediad rheoleiddiol a'n hallbynnau yn 2024/25.

Kate Jones,

Prif Weithredwr y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol

Cyflwyniad i'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol

Mae'r Fforwm yn dod â phedwar o reoleiddwyr y DU at ei gilydd i gyflwyno dull gweithredu cyson ar gyfer rheoleiddio digidol er budd pobl a busnesau ar-lein. Mae'n fforwm cydweithredu gwirfoddol, sy'n hwyluso ymgysylltu rhwng cyrff rheoleiddio sy'n aelodau mewn meysydd polisi digidol sydd o ddiddordeb i bob ochr.

Dyma'r aelodau:

- Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA)
- Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA)
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)
- Y Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom)

Dyma drydydd Adroddiad Blynyddol¹ y Fforwm ar gyfer y flwyddyn 2023/24, sy'n cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â Chynllun Gwaith 2024/25. Mae'n amlinellu sut roedd gwaith y Fforwm yn hyrwyddo'r tri nod cyffredinol a nodir yn ein Cylch Gorchwyl a Chynllun Gwaith 2022/23:

- Cydlyniant rhwng cyfundrefnau
- Cydweithredu ar brosiectau
- Meithrin gallu ar draws rheoleiddwyr

¹ Erbyn Cylch Gorchwyl y Fforwm, bydd Prif Swyddogion Gweithredol y cyrff rheoleiddio sy'n aelodau yn cytuno ar gynllun gwaith ac yn ei gyhoeddi, a fydd yn nodi'r meysydd gwaith ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Bydd adroddiad blynyddol, sy'n rhoi adroddiad tryloyw o'r cynnydd a'r cyflawniadau dros y flwyddyn flaenorol, yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r cynllun gwaith.

Mae'r Fforwm wedi gweithio i hyrwyddo cydlyniant, cydweithredu a meithrin gallu rhwng ein cyrff rheoleiddio sy'n aelodau. Mae Cynllun Gwaith 2023/24 yn nodi ein huchelgeisiau yn y tri maes canlynol:

1. Cydlyniant rhwng cyfundrefnau

Mae diwygiadau deddfwriaethol, gan gynnwys y Ddeddf Diogelwch Ar-lein (OSA), y Bil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr (DMCC), y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (DPDI) a'r Ddeddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol (FSMA) yn dod â'n cylchoedd gwaith digidol yn nes at ei gilydd. Mae'r diwygiadau hyn yn sefydlu pwerau statudol newydd ar gyfer cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm, sy'n gerrig milltir sylweddol o ran rheoleiddio digidol yn y DU.

Drwy weithio gyda'n gilydd ar feysydd lle mae trefniadau rheoleiddio'n croestorri, gallwn ddarparu amddiffyniad gwell i ddinasyddion a defnyddwyr, yn ogystal â sicrwydd i fusnesau yn y DU. Eleni, fe wnaethom ddatblygu rhagor o gydlyniant drwy gefnogi'r cyrff rheoleiddio sy'n aelodau i baratoi ar gyfer y trefniadau deddfwriaethol a rheoleiddio newydd a'u rhoi ar waith.

2. Cydweithredu ar faterion trawsbynciol

Mae 'Dull gweithredu o blaid arloesi yng nghyswllt rheoleiddio deallusrwydd artiffisial' y Llywodraeth yn cynnig fframwaith rheoleiddio deallusrwydd artiffisial sy'n rhoi rheoleiddwyr, a chydlyniant rhyngddynt, yn ganolog iddo. Yn ymateb i'r dirwedd polisi hon sy'n esblygu, mae'r Fforwm wedi cydweithredu ar syniadau uchelgeisiol ar y cyd i hyrwyddo llywodraethu deallusrwydd artiffisial effeithiol a chefnogi arloeswyr drwy ddylunio a datblygu Hwb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol y Fforwm.

3. Meithrin gallu rhwng rheoleiddwyr

Eleni, rydym wedi parhau i feithrin galluoedd drwy ddatblygu dulliau cydgysylltiedig o sganio'r gorwel ar gyfer denu a chadw technoleg a thalent newydd er mwyn rhannu gwybodaeth a'r arferion gorau. Drwy'r gwahanol feysydd gwaith hyn, rydym wedi ceisio darparu eglurder a sicrwydd rheoleiddiol i fusnesau'r DU a diogelu dinasyddion a defnyddwyr ar-lein.


Dros y tudalennau canlynol, rydym yn nodi ein prif gerrig milltir yn ogystal â chyhoeddiadau ym mhob maes gwaith.

Uchafbwyntiau'r flwyddyn


2023 /24

15 
o brosiectau.

208 
o aelodau o staff rheoleiddio yn ymwneud â gweithgareddau'r Fforwm.

11 
o gyrff rheoleiddio nad ydynt yn rhan o'r Fforwm yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd bwrdd crwn rheoleiddiol bob tri mis.


26 
o ymatebion (llafar ac ysgrifenedig) i Gais am Fewnbwn gan y Fforwm.

14 
o bapurau, adroddiadau a blogiau ar y cyd.

4 
elod o'r Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol.

Cydnabyddiaeth Barhaus i Waith y Fforwm


Rhwng 2020 a 2023, cyfeiriwyd yn uniongyrchol at y Fforwm mewn dros 160 o gyhoeddiadau ffynhonnell agored. Dros y cyfnod hwn, mae cyfanswm y cyfeiriadau wedi cynyddu'n sylweddol, a dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym weld gweld gwaith y Fforwm yn cael ei ledaenu yn fwy mewn llenyddiaeth academiaidd ac ar draws llywodraethau'n rhyngwladol.



- Diwydiant, 66
- Llywodraeth y DU a'r Senedd Brydeinig, 30
- Y Wasg, 25
- Cymdeithas Sifil, 23
- Llenyddiaeth Academiaidd, 12
- Llywodraeth Ryngwladol, 4

Allbynnau allweddol y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol ar draws y flwyddyn

2023 / 24



cydlyniant

cydweithredu

gallu

Cydlyniant rhwng cyfundrefnau

Roedd prif feysydd gwaith y Fforwm eleni o ran cydlyniant yn cynnwys diogelu pobl ar-lein; sicrhau cydlyniant rheoleiddiol mewn marchnadoedd digidol; a chydlynu hyrwyddiadau ariannol anghyfreithlon. Nodir y meysydd gwaith a'r cyflawniadau hyn yn fwy manwl isod.

Dyma ein prif gyhoeddiadau yn y maes hwn:

- Gweithdy Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar ddylunio digidol niweidiol (Chwefror 2024):
[Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol yn cyhoeddi blog ar weithdy gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar ddylunio digidol niweidiol](#)
- Gweminar gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar arferion dylunio niweidiol mewn marchnadoedd digidol (Rhagfyr 2023):
[Gweminar gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar arferion dylunio niweidiol mewn marchnadoedd digidol](#)
- Mesur Technolegau Sicrhau Oedran (Awst 2023):
[Adroddiad Newydd ar Dechnolegau Sicrhau Oedran | Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol](#)
- Papur ar y cyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar Ddylunio Niweidiol mewn Marchnadoedd Digidol (Awst 2023):
[Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn cyhoeddi papur ar Ddylunio Niweidiol mewn Marchnadoedd Digidol | Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol](#)

Diogelu pobl ar-lein

Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom gyfrifoldebau rheoleiddio i gynnal diogelwch a phreifatrwydd defnyddwyr ar-lein, gan gynnwys plant. Daeth Cod Plant Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth² i rym ym mis Medi 2020, gyda chyfnod pontio o flwyddyn i fis Medi 2021. Yn 2023, roedd Ofcom wedi ysgwyddo cyfrifoldebau goruchwyllo newydd i osod a gorfodi safonau i ddiogelu pob defnyddiwr, gan gynnwys plant, rhag cynnwys anghyfreithlon ar-lein ar ôl cyflwyno'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein ym mis Hydref 2023.

2 [age-appropriate-design-a-code-of-practice-for-online-services-2-1.pdf \(ico.org.uk\)](#)

Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom ddatganiad ar y cyd³ yn nodi gweledigaeth gyffredin ar gyfer rhyngweithio cydlynol rhwng y trefniadau diogelwch ar-lein a diogelu data. Eleni, gweithiodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom tuag at gyflawni'r weledigaeth hon drwy feithrin a chynnal dealltwriaeth gyffredin o'r meysydd synergedd a thensiwn rhwng y ddwy gyfundrefn hyn.

Fe wnaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom ymgysylltu â'r diwydiant i ddeall heriau cydymffurfio ymarferol ac i helpu i feithrin dealltwriaeth o ddulliau cydymffurfio, cynnal ymchwil, a sefydlu prosesau i gynnal ymwybyddiaeth o weithgareddau goruchwyllo a gorfodi (gan gynnwys rhwng y Llwyfan Rhannu Fideos a chyfundrefnau'r Cod Plant).

Ym mis Awst 2023, fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad Mesur Technolegau Sicrhau Oedran, gan wella ein dealltwriaeth o gymhlethdodau mesur y lefelau cywirdeb technegol y gellir eu cyflawni gan ddatrysiaidau sicrhau oedran. Roedd yr adroddiad yn darparu sylfaen ddefnyddiol ar gyfer meddwl sut y gallwn barhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o fesur cywirdeb technegol yn y maes hwn.

Wrth fynd i'r afael â diogelwch ar-lein, mae'n hanfodol bod defnyddwyr gwasanaethau ar-lein yn hyderus y bydd eu preifatrwydd yn cael ei ddiogelu. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom wedi gweithio gyda'i gilydd yn helaeth ar ymgynghoriad Ofcom sy'n ymwneud â chynnwys anghyfreithlon a chanllawiau o ran Sicrhau Oedran a Barn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar Sicrhau Oedran a'i ganllawiau safoni cynnwys, i sicrhau dull cydlynol a hyrwyddo sicrwydd rheoleiddiol. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom hefyd wedi dyfnhau eu gwaith cydweithredu o ran goruchwyllo a gorfodi.

Cydlyniant rheoleiddiol mewn marchnadoedd digidol

Roedd datganiad ar y cyd⁴ 2021 gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi sefydlu sut mae amcanion rheoleiddio diogelu data a chystadleuaeth yn gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo buddiannau busnesau a defnyddwyr. Eleni, mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi parhau i ymdrechu i hyrwyddo'r amcanion hyn drwy wahanol fentrau.

Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn parhau i fonitro effeithiolrwydd ymrwymadau Google Privacy Sandbox.

3 Diogelwch Ar-lein a Diogelu Data: Datganiad ar y cyd gan Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). 25 Tachwedd 2022

4 [Datganiad ar y cyd ar gystadleuaeth a diogelu data mewn marchnadoedd digidol \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk)

Mae'r fenter hon yn cael ei gyrru gan yr amcan o hyrwyddo cystadleuaeth a meithrin canlyniadau sy'n ystyriol o breifatrwydd mewn marchnadoedd hysbysebu ar-lein cyn cynlluniau Google i dynnu cwcis trydydd parti o Chrome.

Ym mis Awst 2023, cyhoeddodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth bapur sefyllfa ar y cyd yn nodi enghreifftiau o arferion dylunio problemus sy'n gallu codi pryderon diogelu data, cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr.

Mae cydweithredu'n mynd rhagddo i gyfuno arbenigedd rheoleiddio a gwybodaeth am faterion sy'n dod i'r amlwg yn y farchnad ddigidol. Mae gwaith i gynhyrchu datganiad ar y cyd ar fodolau sylfaen yn mynd rhagddo (i'w gyhoeddi yn 2024). Bydd hyn yn adeiladu ar adroddiad cychwynnol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar Fodelau Sylfaen⁵ a gwaith parhaus Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ddeallusrwydd artiffisial generig.⁶

Wrth baratoi ar gyfer deddfwriaeth y Bil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr a'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol arfaethedig, mae'r ddau reoleiddiwr yn cydweithredu'n agos i ddeall y rhyngweithio rhwng y cyfundrefnau newydd hyn ac i ddatblygu dull rheoleiddio cydlynol.⁷

Cynigion hyrwyddo ariannol ar-lein anghyfreithlon

Mae Ofcom a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol wedi parhau i ddarparu rhaglen waith barhaus ar hyrwyddiadau ariannol anghyfreithlon ar-lein. Roedd cyfres o weithdai yn galluogi Ofcom i elwa ar arbenigedd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn hyrwyddiadau ariannol anghyfreithlon wrth ddatblygu'r cynhyrchion rheoleiddio yng Nghannllawiau Barnu Cynnwys Anghyfreithlon Ofcom.⁸ Roedd hyn yn cynnwys gwaith agos ar Gannllawiau Barnu Cynnwys Anghyfreithlon Ofcom, sy'n helpu gwasanaethau i nodi cynnwys anghyfreithlon ar eu gwasanaeth, ac i sicrhau cydlyniant rhwng y gwahanol gyfundrefnau.

5 [Modelau Sylfaen Deallusrwydd Artiffisial: adolygiad cychwynnol - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/news/modeling-artificial-intelligence-advertising)

6 [Cyfres ymgynghori Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol a diogelu data | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](https://www.gov.uk/government/news/cyfraith-gwybodaeth-ar-ddeallusrwydd-artiffisial-cynhyrchiol-a-diogelu-data)

7 Disgwylir i'r prosesau hyn gan y Senedd Brydeinig ddod i ben – a disgwylir i'r ddeddfwriaeth ddechrau – yn ystod 2024.

8 Ymgynghoriad: Diogelu pobl rhag niwed anghyfreithlon ar-lein, Ofcom, a gynhaliwyd rhwng 9 Tachwedd 2023 a 23 Chwefror 2024. <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/protecting-people-from-illegal-content-online>

Cydweithredu ar faterion trawsbynciol

Eleni, roedd gweithgareddau cydweithredu'r Fforwm yn canolbwyntio ar dri mater sy'n cwmpasu cylch gwaith rheoleiddio ei aelodau: hyrwyddo llywodraethu effeithiol mewn systemau algorithmig; datblygu ffyrdd o gefnogi arloeswyr i gydymffurfio â nifer o gyfundrefnau rheoleiddio; a datblygu ein dealltwriaeth ar y cyd o asedau digidol. Drwy ddod ag arbenigwyr at ei gilydd a chyfuno ein syniadau, buom yn gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu syniadau ar y cyd ac i fynd i'r afael â heriau sy'n dod i'r amlwg.

Dyma ein prif gyhoeddiadau yn y maes hwn:

Prosesu algorithmig

- Cyfarfod Bwrdd Crwn gyda mabwysiadwyr deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, yn cynnwys 19 o gwmnïau (Ionawr 2024)
- Blog ar Feithrin Gallu i Asesu Systemau Algorithmig (Medi 2023):
[Blog Newydd ar Feithrin Gallu i Asesu Systemau Algorithmig | Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol](#)
- Blog ar ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (Gorffennaf 2023):
[Blog Newydd ar Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol | Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol](#)
- Ymateb y Fforwm i'r Papur Gwyn ar Ddeallusrwydd Artiffisial (Gorffennaf 2023):
[Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol yn ymateb i'r Papur Gwyn ar Ddeallusrwydd Artiffisial | Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol](#)
- Gweminar y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol ar Brosesu Algorithmig (Mai 2023):
[Gweminar y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol - Prosesu Algorithmig | Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol](#)

Cynllun Peilot yr Hwb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol

- Yr wybodaeth ddiweddaraf ar yr Hwb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol (Chwefror 2024):
[Yr wybodaeth ddiweddaraf ar Hwb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol](#)

- Gwasanaeth Cyngor Aml-asiantaeth y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol - Adroddiad Argymhellion Terfynol (Hydref 2023):
[Adroddiad Newydd - Gwasanaeth Cyngori Aml-asiantaeth Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol, Argymhellion Terfynol | Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol](#)
- Cyhoeddiad yr Hwb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol (Medi 2023):
[Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol i dreialu gwasanaeth cyngori newydd fel rhan o gynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer deallusrwydd artiffisial yn y Fforwm | Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol](#)

Cefnogi'r gwaith o lywodraethu systemau algorithmig a deallusrwydd artiffisial yn effeithiol

Mae defnyddio algorithmau i brosesu data yn sail i lawer o wasanaethau digidol. Fel rheoleiddwyr gwasanaethau digidol, mae cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm yn cefnogi'r defnydd o systemau algorithmig mewn ffordd sy'n hyrwyddo manteision algorithmau ac yn lliniaru'r risgiau.

Rydym wedi gweithio gyda'n gilydd i ymateb i risgiau deallusrwydd artiffisial newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg ar draws ein sectorau. Mae hyn wedi cynnwys edrych ar oblygiadau posibl deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol. Ym mis Ionawr 2024, fe wnaethom gynnal gweithdy gyda mabwysiadwyr technoleg, a fynychwyd gan 19 o randdeiliaid, i ddysgu mwy am y defnydd a'r heriau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol. Rydym hefyd wedi cynnal ymchwil i ddefnydd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ymysg defnyddwyr, gan archwilio lefelau ymddiriedaeth a dealltwriaeth defnyddwyr o'r dechnoleg.

Mae 'Dull gweithredu o blaid arloesi yng nghyswllt rheoleiddio deallusrwydd artiffisial'⁹ y Llywodraeth yn nodi pum egwyddor i arwain a helpu i lunio datblygiad a defnydd cyfrifol o ddeallusrwydd artiffisial ar draws pob sector o'r economi. Mae'r Llywodraeth wedi gofyn i bob rheoleiddiwr ddehongli a chymhwyso pob un o'r egwyddorion o fewn ei gylch gwaith, gyda hyblygrwydd i arfer barn wrth gymhwyso'r egwyddorion mewn cyd-destunau penodol.

9 Dull gweithredu o blaid arloesi yng nghyswllt rheoleiddio deallusrwydd artiffisial, ymateb y Llywodraeth, <https://www.gov.uk/government/consultations/ai-regulation-a-pro-innovation-approach-policy-proposals/outcome/a-pro-innovation-approach-to-ai-regulation-government-response>

Cynhaliodd aelodau'r Fforwm weithdy i archwilio'r egwyddor 'tegwch'. Roeddem wedi ystyried ystyr "tegwch" yn ein priod gylchoedd gwaith statudol, y dulliau rydym i gyd yn eu defnyddio mewn amgylcheddau digidol, a'r rhyngweithio rhwng ein gwahanol ddulliau. Fe wnaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gymryd rhan yn y drafodaeth hon er mwyn cyfrannu gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth am eu gwaith o gymhwyso fframweithiau cyfreithiol hirsefydlog i'r defnydd o dechnolegau newydd.

Eleni, gwnaethom adeiladu ar ein cyhoeddiad blaenorol yn edrych ar archwilio algorithmig, y dirwedd bresennol, a rôl rheoleiddwyr. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at fapio helaeth o'r farchnad asesu algorithmig trydydd parti, gan gynnwys cyfweiliadau manwl gydag aseswyr gweithredol i ddeall eu galluoedd a'u heriau presennol. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r wybodaeth rydym wedi'i chael o'n hymgysylltiad â'r farchnad gynyddol hon yn ystod haf 2024.

Galluogi arloesi yn y diwydiannau rydym yn eu rheoleiddio: Hwb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol

Mae arloesedd yn chwarae rhan bwysig yn economi'r DU, gan sbarduno twf, cystadleurwydd ac effeithlonrwydd ar draws y sectorau y mae ein haelodau'n eu rheoleiddio. Nod y Fforwm yw ei gwneud yn haws i gwmnïau sydd angen cydymffurfio ar draws ein gwahanol gyfundrefnau gynnal busnes.

Eleni, gyda chyllid gan [Gronfa Arloesi'r Rheoleiddwyr](#), comisiynodd y Fforwm ymchwil i ystyried sut gallwn ni helpu arloeswyr i brofi eu syniadau. Roedd yr ymchwil yn cynnwys ymgysylltu ag amrywiaeth o arloeswyr - gan gynnwys cwmnïau newydd a sefydledig, mawr a bach - mewn amrywiaeth o sectorau. Roedd yr hyn a glywsom yn gyson: mae arloeswyr technolegau arloesol, fel modelau iaith mawr a hunaniaeth ddigidol, eisiau mynediad symlach at gymorth rheoleiddio cydgysylltiedig ac wedi'i deilwra i'w helpu i ddod â chynnyrch a gwasanaethau newydd i'r farchnad.

Ym mis Medi 2023, fe wnaethom gyhoeddi cynlluniau i dreialu gwasanaeth cyngori aml-reoleiddiwr newydd, sef 'Hwb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol' y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol, gyda chyllid gan y Llywodraeth. Nod yr Hwb yw cynyddu hyder arloeswyr i ddod â deallusrwydd artiffisial a chynnyrch digidol newydd i'r farchnad yn ddiogel, drwy eu helpu i ddeall a helpu i lunio gofynion rheoleiddio. Bydd yn darparu cyngor anffurfiol i arloeswyr sy'n chwilio am ymatebion i'w cwestiynau deallusrwydd artiffisial a digidol cymhleth sy'n croesi o leiaf ddau gylch gwaith y cyrff rheoleiddio sy'n aelodau ac sydd o fudd i ddefnyddwyr, y diwydiant a'r economi. Bydd yr Hwb yn cael ei lansio yng Ngwanwyn 2024.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn gallu cyfeirio eu cwestiynau at reoleiddwyr y Fforwm drwy un pwynt mynediad a chael cymorth wedi'i deilwra.

Er mwyn ymestyn manteision y gwasanaeth, byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau fel astudiaethau achos ar ein gwefan wrth i ni fynd i'r afael ag ymholiadau yn yr Hwb. Bydd yr adnodd astudiaeth achos hwn yn golygu y gall arloeswyr y dyfodol chwilio am atebion i gwestiynau ar-lein cyn gwneud cais i'r Hwb. Bydd hyn yn ein helpu i gefnogi mwy o arloeswyr a chyflymu'r broses arloesi.

Deall y manteision a'r niwed a achosir gan asedau digidol

Gan gydnabod y potensial ar gyfer twf pellach mewn asedau digidol fel cryptoarian, mae rheoleiddwyr yn awyddus i ddeall eu risgiau a'u manteision i ddefnyddwyr, yn enwedig o safbwyntiau ariannol a diogelu data.

Yn ystod 2023-24, comisiynodd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ymchwil ar y cyd i wella ein dealltwriaeth o agweddau defnyddwyr tuag at y cynhyrchion hyn. Bydd yr ymchwil ansoddol hon yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar brofiadau defnyddwyr, gan gynnwys sut maen nhw'n cael gwybodaeth am asedau, eu hymwybyddiaeth o sut mae rheoleiddio'n berthnasol a sut maen nhw'n gweld risgiau a manteision buddsoddi.

Caiff yr ymchwil hwn ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2024. Rydym yn croesawu sylwadau pellach ar y materion yn yr adroddiad maes o law.

Meithrin gallu ar draws rheoleiddwyr

Mae gwaith y Fforwm i feithrin gallu yn darparu cyfleoedd ar gyfer cydlynu a dysgu ar y cyd ymysg ei aelodau. Eleni, gwnaethom hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth ar bob lefel ac ar draws amrywiaeth o feysydd strategol a gweithredol, gan hyrwyddo cysylltiadau gwaith cryfach. Fe wnaethom hefyd ddatblygu ein rhaglen waith sganio'r gorwel lwyddiannus i nodi a dadansoddi technolegau datblygol ar y cyd a deall eu heffaith ar gylich gwaith rheoleiddio aelodau. Gan adeiladu ar waith y Fforwm y llynedd yn ymwneud â denu talent a dysgu a datblygu, gwnaethom barhau i gydweithredu yn y meysydd hyn drwy gynnal ymchwil i ddeall anghenion aelodau o ran sgiliau a galluoedd digidol.

Dyma ein prif gyhoeddiadau yn y maes hwn:

- Papur sy'n Rhagweld Technolegau Ymgolli (Rhagfyr 2023):
[Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol yn Cyhoeddi Papur sy'n Rhagweld Technolegau Trochi | Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol](#)
- Papur Gwybodaeth ar Dechnolegau Cwantwm (Awst 2023):
[Papur Gwybodaeth Newydd ar Dechnolegau Cwantwm y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol | Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol](#)

Sganio'r gorwel ar y cyd i ddatblygu dealltwriaeth o dechnolegau newydd

Mae rhaglen sganio'r gorwel y Fforwm yn mabwysiadu dull rhagweithiol o ddeall manteision, risgiau a goblygiadau rheoleiddiol posibl technolegau datblygol, gwella ein dealltwriaeth ar y cyd a helpu i lunio ein hymateb strategol i'r meysydd hyn.

Ym mis Awst 2023, fe wnaethom gyhoeddi 'Papur Gwybodaeth ar Dechnolegau Cwantwm', gan adeiladu ar Symposiwm Cwantwm y Fforwm a gynhaliwyd ar y cyd â Digital Catapult a'r National Quantum Computing Centre (NQCC) ym mis Chwefror 2023. Mae'r papur yn trafod natur a photensial technolegau cwantwm ac yn nodi ystyriaethau allweddol ar gyfer rheoleiddwyr mewn byd sy'n galluogi defnyddio cwantwm.

Yn dilyn ein cais am fewnbwn i Gynllun Gwaith 2023-24, eleni rydym wedi canolbwyntio ar ddau bwnc arall: technolegau ymgolli a dyfodol ID digidol.

- Mae technolegau ymgolli yn cwmpasu systemau a gwasanaethau gwahanol fel realiti rhithwir (VR), realiti cymysg (MR) a realiti estynedig (AR) i alluogi amgylcheddau newydd sy'n cael eu cynhyrchu gan gyfrifiadur. Er eu bod yn cynnig manteision posibl i ddefnyddwyr, busnesau a'r economi ehangach, maent hefyd yn peri risgiau posibl er enghraifft i breifatrwydd a diogelwch ar-lein. Fe wnaethom gyhoeddi 'Papur sy'n Rhagweld Technolegau Pwysig', a oedd yn crynhoi ein hymchwil a'n hymgysylltiad â'r diwydiant ac yn amlinellu'r ystyriaethau rheoleiddio a allai ddod i'r amlwg pe bai'r defnydd o'r technolegau hyn yn cynyddu.
- Mae hunaniaeth ddigidol yn gynrychiolaeth ddigidol o'ch hunaniaeth sy'n gallu cadarnhau pwy ydych chi heb ddogfennau ffisegol. Gallai'r technolegau hyn alluogi modelau busnes newydd a digideiddio pellach ar ystod o wasanaethau, ac mae eu mabwysiadu yn cynnig y potensial i effeithio'n sylweddol ar dechnolegau digidol, gan effeithio ar gylchoedd gwaith yr holl gyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm. Rydym wedi ymgysylltu â diwydiant ac arbenigwyr i archwilio a deall ei effaith bosibl mewn meysydd technoleg amrywiol. Byddwn yn datblygu adroddiad manwl i gefnogi timau polisi mewnol, a byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'n canfyddiadau yn ystod haf 2024.

Hyrwyddo perthynas waith gryfach rhwng y cyrff rheoleiddio sy'n aelodau

Mae'r Fforwm yn chwarae rhan bwysig o ran meithrin arbenigedd ymysg y rheoleiddwyr a rhannu gwybodaeth, arferion gorau a gwybodaeth. Rydym yn hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth strategol a gweithredol rhwng ein cyrff rheoleiddio sy'n aelodau ar bob lefel, yn cynnwys Prif Swyddogion Gweithredol, cyfarwyddwyr strategaeth, Prif Swyddogion Technoleg a rhwydweithiau. Maent yn cydweithredu ar faterion penodol, fel technolegau sy'n gwella preifatrwydd (PETs), hysbysebu ar-lein, seiberddiogelwch a gwytnwch. Rydym hefyd yn dod â chydweithwyr at ei gilydd i drafod "sut" yn ogystal â "beth" o ran arferion rheoleiddio da, er enghraifft cysylltu arbenigedd rheoli prosiectau i rannu arferion gorau ar fethodoleg ystwyth.

Rydym wedi ymgysylltu â staff ar draws ein cyrff rheoleiddio sy'n aelodau i rannu cyflawniadau a cherrig milltir prosiectau'r Fforwm. Rydym wedi dosbarthu dau gylchlythyr mewnol gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am ein holl brosiectau ac wedi rhoi cyflwyniadau mewn wyth digwyddiad mewnol, ynghyd â chyhoeddi nodyn ar chwe aelod o staff y Fforwm ar fewnrwydi'r cyrff rheoleiddio sy'n aelodau.

Denu talent a datblygu sgiliau ym mhob un o'r pedwar corff rheoleiddio sy'n aelod

Mae'r Fforwm hwn rhoi cyfle i aelodau weithio gyda'i gilydd i feithrin gallu a denu talent newydd, gan gefnogi rhaglenni trawsnewid unigol pob un o'r cyrff rheoleiddio sy'n aelodau.

Ym mis Gorffennaf 2023, cynhaliodd y Fforwm ymchwil gydag aelodau i ddeall sgiliau, gallu a blaenoriaethau dysgu ei aelodau, yn ogystal ag archwilio cyfleoedd i gydweithredu yn y meysydd blaenoriaeth hyn. Rydym nawr yn rhannu deunyddiau dysgu (lle bo hynny'n briodol ac yn berthnasol), yn datblygu rhaglen o ddigwyddiadau wedi'u targedu, ac yn agor digwyddiadau dysgu rhwng rheoleiddwyr fel bod yr holl staff yn elwa o fwy o gyfleoedd dysgu digidol.

Ym mis Medi 2022, fe wnaethom gyflogi myfyriwr graddedig cyntaf y Fforwm. Eleni, gwnaethom barhau i gefnogi'r myfyriwr graddedig hwn drwy gyfres o gylchdroadau chwe mis. A ninnau'n awyddus i adeiladu ar lwyddiant y cynllun peilot hwn, rydym yn edrych ar gyfleoedd i ehangu'r fenter hon drwy gyfres o secondiadau traws-reoleiddio i raddedigion. Rydym hefyd wedi hysbysebu cyfleoedd secondiad rhwng ein cyrff rheoleiddio sy'n aelodau. Yn y cyfamser, mae cydweithwyr sy'n gweithio ar brosiectau'r Fforwm yn elwa o gyfleoedd i rannu profiadau a dysgu o safbwyntiau rheoleiddwyr eraill.

Datblygu'r defnydd o dechnoleg oruchwylio mewn rheoleiddio

Eleni, nod y Fforwm oedd defnyddio technolegau i helpu ei gyrff rheoleiddio sy'n aelodau i gyflawni eu swyddogaethau. Fe wnaethom ddechrau cydweithredu ar ddefnyddio deallusrwydd artifisial a dysgu peirianyddol yng ngweithrediadau mewnol yr aelodau ac yn eu gallu i oruchwylio a byddwn yn parhau â'r gwaith hwn yn ystod blwyddyn nesaf y cynllun gwaith (gweler tudalen 12 y Cynllun Gwaith 2024/25).

Ymgysylltu â'r Senedd Brydeinig, y llywodraeth, y diwydiant, a grwpiau defnyddwyr

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ffordd hanfodol o wella ein dealltwriaeth o'r rhyngweithio sy'n digwydd rhwng cylchoedd gwaith rheoleiddio aelodau'r Fforwm, ac i gasglu mewnbwn a gwybodaeth i lunio ein ffordd o feddwl ac i fwyhau effaith canlyniadau prosiectau. Eleni, rydym wedi buddsoddi mewn cysylltiadau â rhanddeiliaid o bob rhan o'r diwydiant, cymdeithas sifil, y llywodraeth, y Senedd Brydeinig, rheoleiddwyr eraill, a chymheiriaid rhyngwladol.

Eleni, roedd y Fforwm wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn amrywiaeth o fforymau a digwyddiadau, gan gynnwys y canlynol:

33 o ddigwyddiadau â siaradwyr

Cymryd rhan mewn 33 o ddigwyddiadau â siaradwyr, gan gynnwys trafodaethau panel, areithiau a chyflwyniadau, trafodaethau ar-lein a phodlediad. 4 ymchwiliad gan y Pwyllgor Dethol: Darparu tystiolaeth – ar lafar ac yn ysgrifenedig – i bedwar ymchwiliad gan y Pwyllgor Dethol ac ymgynghoriadau'r Adran.

4 ymchwiliad gan y Pwyllgor Dethol

Darparu tystiolaeth – ar lafar ac yn ysgrifenedig – i bedwar ymchwiliad gan y Pwyllgor Dethol ac ymgynghoriadau'r Adran.

7 cyfarfod rhyngwladol

Arwain a chadeirio dau gyfarfod o'n Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol a ffurfiwyd yn ddiweddar, a chynnal pum cyfarfod gyda rheoleiddwyr o awdurdodaethau rhyngwladol.

Ymgysylltu rheolaidd

gydag 11 o reoleiddwyr nad ydynt yn rhan o'r Fforwm drwy ein cyfarfodydd bwrdd crwn rheoleiddiol bob tri mis.

Mae ein cerrig milltir a chyhoeddiadau allweddol yn y maes hwn yn cynnwys y canlynol:

- Digwyddiad y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol gyda techUK (Ebrill 2024): [Navigating the UK's Digital Regulation Landscape: where are we headed?](#)
- Ail gyfarfod y Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (Ionawr 2024).
- Mae'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol yn cymryd rhan ym mhanel cynhadledd Cyfrifiaduron, Preifatrwydd a Diogelu Data (CPDP) Brwsel: 'Data-driven Practices through a Cross-regulatory Lens: The Future of Digital Governance' (Ionawr 2024).
- Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol yn cymryd rhan mewn digwyddiad ymylol ar ddeallusrwydd artiffisial (Tachwedd 2023): [Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol yn Cydweithredu ar y Panel Rheoleiddio mewn digwyddiad ymylol ar ddeallusrwydd artiffisial | Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol](#)
- Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol yn cymryd rhan yn y podlediad Top in Tech with Global Counsel (Tachwedd 2023): [Podlediad Newydd - Top in Tech with Global Counsel | Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol](#)
- Fe wnaeth y Fforwm roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg fel rhan o'u hymchwiliad Llywodraethu Deallusrwydd Artiffisial (Hydref 2023): [Llywodraethu ymchwiliad Deallusrwydd Artiffisial: Parliamentlive.tv - Y Pwyllgor Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg](#)
- Proffil y Fforwm mewn Gwrandawriadau Preifatrwydd a Gweithdai Busnes (Medi 2023): [Proffil y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol mewn Gwrandawriadau Preifatrwydd a Gweithdai Busnes | Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol](#)
- Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol yn cymryd rhan yn nigwyddiad IAPP LinkedIn Live (Awst 2023): [LinkedIn Live - Kate Jones a Stephen Almond | Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol](#)
- Cymerodd y Fforwm ran yn nigwyddiad eFforwm San Steffan 'Priorities for digital competition and growth in the UK' (Mehefin 2023): [Kate Jones yn siarad yng Nghynhadledd Polisi eFforwm yn San Steffan | Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol](#)
- Lansio'r Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (Mehefin 2023): [Lansio'r Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol \(INDRC\) | Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol](#)

Ymgysylltu â'r sector digidol

Roedd prosiectau'r Fforwm yn gofyn am fewnbwn gan y diwydiant drwy gydol eu gwaith, gan gynnwys digwyddiadau sganio'r gorwel a chadeirio cyfarfodydd bwrdd crwn. Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys cynnal cyfarfod bwrdd crwn gyda mabwysiadwyr cynnar ar Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol a chynnal gweithdy gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i rannu syniadau am weithredu'r egwyddor tegwch yn y Papur Gwyn ar Ddeallusrwydd Artiffisial. Cyflwynodd Tîm Sganio'r Gorwel a Thechnolegau Datblygol y Fforwm bwyntiau allweddol o'u Papur sy'n Rhagweld Technolegau Ymgolli i amrywiaeth o randdeiliaid yn y diwydiant a'r senedd Brydeinig.

Roedd y Fforwm wedi ymgysylltu â mwy na 60 o arloeswyr fel rhan o'i ymchwil i sut gall rheoleiddwyr gefnogi gwaith arloeswyr; 19 o sefydliadau sy'n mabwysiadu deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol; a 31 o ddefnyddwyr yn ein hymchwil ar fuddsoddi mewn asedau digidol.

Mae'r Fforwm wedi cymryd rhan mewn 33 o ddigwyddiadau â siaradwyr. Ym mis Tachwedd 2023, fe wnaethom gynnal panel rheoleiddio yn yr Uwchgynhadledd Ymylol ar Ddeallusrwydd Artiffisial. Siaradodd Prif Swyddog Gweithredol y Fforwm am ddyfodol rheoleiddio digidol ar achlysur sy'n nodi 10 mlynedd ers sefydlu Rhwydwaith Rheoleiddwyr y Deyrnas Unedig (UKRN) yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Mawrth 2024.

Ymgysylltu â'r llywodraeth a'r senedd Brydeinig

Mae'r Fforwm yn cydnabod diddordeb y senedd Brydeinig yn ein gwaith a'i berthnasedd i feysydd polisi'r llywodraeth.

Fe wnaethom ddarparu tystiolaeth i ddau ymgynghoriad adrannol, a thystiolaeth – ar lafar ac yn ysgrifenedig – i Bwyllgor Cyfathrebiadau a Digidol Tŷ'r Arglwyddi a Phwyllgor Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg Tŷ'r Cyffredin. Cawsom gyfarfod â Chadeirydd y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Reoleiddio a Chyfrifoldeb Digidol, a nifer o lefarwyr y fainc flaen ar faterion sy'n ymwneud â thechnoleg a busnes. Rydym yn parhau i ymgysylltu â thimau rheoleiddio digidol o fewn y Llywodraeth lle bo'n briodol. Mae ein cyrff rheoleiddio sy'n aelodau yn trafod y Fforwm yn rheolaidd yn eu hymgysylltiad â Phwyllgorau Dethol, Seneddwyr a swyddogion y llywodraeth.

Ymgysylltu rheoleiddiol

Mae'r Fforwm yn blaenoriaethu rhannu gwersi a ddysgwyd gan reoleiddwyr eraill. Rydym wedi trefnu cyfarfodydd bwrdd crwn chwarterol ar gyfer rheoleiddwyr a fynychwyd gan 11 o gyrff rheoleiddio nad ydynt yn aelodau¹⁰ i rannu gwybodaeth am sut mae gwahanol gyrff rheoleiddio'n mynd i'r afael â materion digidol. Roedd y pynciau a drafodwyd eleni yn cynnwys diogelwch ar-lein, deallusrwydd artiffisial a thechnolegau ymgolli. Rydym hefyd wedi cael trafodaethau gyda chynrychiolwyr rheoleiddwyr eraill a Chyngor Gorwelion Rheoleiddio.

Ymgysylltu rhyngwladol

Eleni, fe wnaethom ehangu cyrhaeddiad rhyngwladol y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol drwy raglen o ymgysylltu amlochrog a dwyochrog. Ym mis Mehefin 2023, fe wnaethom sefydlu'r Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol fel llwyfan i gyrff cydlynu rheoleiddiol eraill rannu gwybodaeth am dulliau gweithredu byd-eang o ran cydlyniant a chydweithredu rheoleiddiol, a meithrin perthnasoedd rhwng awdurdodau rheoleiddio ar faterion yn ymwneud â rheoleiddio digidol. Roeddem wedi cynnal ail gyfarfod o'r Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol ym mis Ionawr 2024 ac roeddem wedi ymgysylltu â chyrrff amrywiol ar draws nifer o wledydd ac awdurdodaethau. Fe wnaethom gymryd rhan mewn saith digwyddiad rhyngwladol, gan roi sylw i gynulleidfaoedd amrywiol ynghylch arwyddocâd diwygiadau digidol, yr angen am gydlyniant rheoleiddiol yn yr economi ddigidol, a phwysleisio rôl rheoleiddwyr y DU mewn dadleuon rhyngwladol.

10 Y Comisiwn Etholiadol
Y Comisiwn
Hapchwarae
Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA)
Rheoleiddiwr Systemau Talu (PSR)
Banc Lloegr
Y Swyddfa Eiddo Deallusol (IPO)
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC)
Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain (BBFC)
Awdurdod Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion
Gofal Iechyd (MHRA) Y Comisiwn Ansawdd Gofal
Y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau

